Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Emma Sullivan
(Rhif Ffôn: 01443 864420 Ebost: sullie@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: Dydd Gwener, 3 Mai 2019**

**Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'i we-ddarlledu, ac ar gael i'w weld yn fyw ac mewn ffurf archif drwy wefan y Cyngor, ag eithrio trafodaeth yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriadau. Felly bydd delweddau /sain yr unigolion sy'n arsylwi neu siarad/roi tystiolaeth yng nghyfarfodydd Llawn y Cyngor ar gael yn gyhoeddusi bawb weld drwy'r we-ddarllediad ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk.**

**Mae croeso i chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, mae angen rhybudd cyfnod lleiafswm o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.**

**Mae pob cyfarfod pwyllgor ar agor i'r Wasg a'r Cyhoedd, gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr i ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Nodwch bydd methu a gwneud hyn yn arwain at rywun yn gofyn i chi adael y cyfarfod ac efallai byddwch yn cael eich hebrwng o'r eiddo.**

Annwyl Gynghorydd,

Drwy hyn, cewch eich gwahodd i fynychu **Cyfarfod Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** a gynhelir yn **Siambr y Cyngor - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** on **Dydd Iau, 9fed Mai, 2019** am **6.00 pm** i ystyried y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr agenda canlynol.

Yn gywir,

**Christina Harrhy**
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

**A G E N D A**

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach
Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat

3 Sylwadau'r Maer sy'n Ymddeol.

4 Ethol Maer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2020 a gwneud taliad cyflog dinesig.

5 Cyflwyno Bathodynnau'r Maer a'r Cymar Diwethaf.

6 Penodi Dirprwy Faer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2020 a gwneud taliad cyflog dinesig.

7 Cyhoeddiadau'r Maer.

8 Penodi Arweinydd y Cyngor a gwneud taliad uwch gyflog.

9 Nodi penodiad Dirprwy Arweinydd/Dirprwy Arweinwyr a gwneud taliad uwch gyflog.

10 Nodi nifer yr Aelodau sydd i'w penodi i'r Cabinet, yr enwau y mae'r Arweinydd wedi'u dewis i fod yn Aelodau Cabinet a gwneud taliadau uwch gyflog.
Gwasanaethau Corfforaethol
Dirprwy Arweinydd a'r Economi, Isadeiledd, Cynaliadwyedd a Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (a rhannu taliad Uwch Gyflog y Dirprwy)
Dirprwy Arweinydd a Chyllid, Perfformiad a Llywodraethu (a rhannu taliad Uwch Gyflog y Dirprwy)
Addysg a Chyflawniad
Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd
Cartrefi a Lleoedd
Gwasanaethau Cymdogaeth
Gofal Cymdeithasol a Llesiant

11 Penodi Arweinydd y prif grŵp gwrthblaid a gwneud taliad uwch gyflog.

12 Datganiad yr Arweinydd.

Derbyn ac ystyried yr adroddiadau canlynol:-

13 Newidiadau i'r Cyfansoddiad.
1 - 122

14 Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf a gwneud taliad uwch gyflog i'r Cadeirydd:-
Pwyllgor Craffu Addysg
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd
Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio

15 Cytuno ar benodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol (adroddiad wedi'i atodi):-

Pwyllgor Craffu Addysg
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd
Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio

16 Penodi Cadeirydd ac/neu Is-gadeirydd (lle bo angen) i'r Pwyllgorau canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf a gwneud taliad uwch gyflog i'r Cadeirydd:- (*nid yw'n berthnasol)
Panel Apeliadau (Disgyblu/Cwyno)*
Pwyllgor Penodiadau*
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu* (i'w benodi gan y Pwyllgor)
Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol
Pwyllgor Cynllunio

17 Nodi y caiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio eu penodi yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ac y gwneir taliad uwch gyflog i'r Cadeirydd.

18 Cytuno ar benodi Aelodau i wasanaethu ar y pwyllgorau canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol (adroddiad wedi'i atodi):-
Panel Apeliadau (Disgyblu/Cwyno) (3 aelod/3 dirprwy)
Pwyllgor Penodiadau (8 aelod ynghyd a'r Aelod Cabinet perthnasol)
Pwyllgor Archwilio (12 aelod)
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (16 aelod)
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu (7 aelod)
Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol (15 aelod)
Pwyllgor Cynllunio (20 aelod)
Pwyllgor Safonau (2 aelod/2 ddirprwy)
Pwyllgor Cabinet Hawliau'r Tramwy (5 Aelod Cabinet)

19 Cyfansoddi Is-bwyllgorau/Gweithgorau/Paneli/Byrddau a chytuno ar benodi Aelodau i wasanaethu arnynt ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol (adroddiad wedi'i atodi).

127 - 130

20 Cytuno ar benodi/enwebu cynrychiolwyr i wasanaethu ar gyrff allanol lle bo angen (adroddiad wedi'i atodi).

131 - 136

**Cylchrediad:**
Pob Aelod a Swyddog Priodol

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy’n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a’r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o’r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i’r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy’n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â’r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a’r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda’r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a’ch hawliau, ewch i’r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.